



Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Briff Ymarfer 1
Tystiolaeth a safon profi
yn y llys teulu

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Tystiolaeth a safon profi yn y llys teulu

Mae'r briff hwn yn edrych ar dystiolaeth a safon profi yn y llys teulu. Mae'n edrych beth mae'n rhaid i'r llys ei benderfynu a beth yw'r goblygiadau o ran ymarfer gwaith cymdeithasol. Mae hefyd yn edrych ar ddyletswyddau'r tyst arbenigol a sut y mae'r rhain yn berthnasol i'r gweithiwr cymdeithasol sy'n rhoi tystiolaeth mewn llys fel tyst proffesiynol. Bydd yn eich helpu i:

- > Ddatblygu dealltwriaeth glir o'r mathau o dystiolaeth y gellir eu rhoi gerbron llys a'r pwysoliad a roddir iddynt.
- > Deall rolau a disgwyliadau perthynol y gweithiwr cymdeithasol a'r tyst arbenigol.
- > Gwella eich dealltwriaeth o'r hyn y mae barnwyr ac ynadon yn debygol o'i wybod am dystiolaeth seiliedig ar ymchwil mewn gwaith cymdeithasol.

Y prif negeseuon

- > Er nad ydynt yn 'dystion arbenigol' yn yr ystyr eu bod wedi cael eu penodi'n ffurfiol gan y llys, mae gweithwyr cymdeithasol yr awdurdod lleol a Cafcass Cymru yn dystion proffesiynol y mae eu tystiolaeth yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol a barn broffesiynol (bydd y cydbwysedd rhwng y rhain yn amrywio gan ddibynnu ar eu profiad a faint o ran y maent yn ei chwarae yn yr achos).
- > Mae gan weithwyr cymdeithasol ac arbenigwyr ddyletswydd i ddarparu'r holl wybodaeth y mae ar y llys ei hangen er mwyn gwneud penderfyniad sydd er pennaf les y plentyn. Felly nid cynrychioli'r awdurdod lleol yn unig y mae gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol – fel arbenigwyr, mae ganddynt ddyletswydd i fod yn wrthrychol ac yn deg wrth roi tystiolaeth.
- > Mae gwarcheidwaid plant yn cael eu darparu gan Cafcass Cymru ond maent yn cael eu penodi gan y llys i'r plentyn unigol.
- > Mae angen i weithwyr cymdeithasol fod yn ddadansoddol wrth gyflwyno gwybodaeth ar gyfer y llys.
- > Mae angen i weithwyr cymdeithasol ddatblygu mwy o hyder yn y ffordd y maent yn defnyddio ymchwil a barn broffesiynol yn eu tystiolaeth.
- > Mae angen i weithwyr cymdeithasol fod yn ymwybodol o hyfforddiant

rhyngddisgyblaethol a chymryd rhan mewn hyfforddiant o'r fath ar draws yr holl grwpiau proffesiynol sy'n ymwneud â phroses y llys. Mae angen iddynt chwarae eu rhan yn y broses o ddatblygu dulliau gweithredu cytunedig ac effeithiol.

CLODDIO'N DDYFNACH

Yn o argymhellion yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol (2011) oedd bod angen darpariaeth hyfforddi a datblygu fwy cyson i weithwyr proffesiynol cyfiawnder teuluol, gan gynnwys mwy o bwyslais ar ddatblygiad plant. Comisiynwyd y Ganolfan Ymchwil Lles Plentynod gan yr Adran Addysg a'r Cyngor Cyfiawnder Teuluol i gyhoeddi papur tystiolaeth, *Decision-making within a Child's Time-frame* (Brown a Ward, 2013), a oedd yn dwyn ynghyd ymchwil allweddol mewn meysydd yn ymwneud â'r canlynol:

- > Safbwyntiau niwrowyddonol ar ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plant
- > Goblygiadau camdriniaeth ar lesiant yn ystod plentynod ac ar ôl dod yn oedolion
- > Canlyniadau ymyriadau gan y llysoedd a gofal cymdeithasol plant
- > Fframiau amser ar gyfer y plentyn sy'n datblygu a sut y maent yn cyfateb i'r fframiau amser ar gyfer ymyrryd.

Bwriad y papur oedd helpu gweithwyr proffesiynol cyfiawnder teuluol i wneud

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Tystiolaeth a safon profi yn y llys teulu

penderfyniadau a hybu mwy o ddealltwriaeth o anghenion plant unigol a fframiau amser priodol. Yn wir, daeth y papur, yn enwedig ei gyflwyniad ar ymchwil niwrowyddonol, yn ganolbwynt dadl danbaid ar draws cymunedau ymchwil a pholisi ynglŷn â materion fel parodrwydd canfyddiadau ymchwil sy'n dod i'r amlwg ar gyfer polisi (Bywaters, 2015; White a Wastell, 2013).

Brown a Ward: <http://www.cwrc.ac.uk/resources/773.html>

White a Wastell: https://papers.ssrn.com/sol3/papers.cfm?abstract_id=2325357

Pa dystiolaeth y gellir ei chyflwyno i'r llys?

Mae gweithwyr cymdeithasol yn darparu'r canlynol i'r llys:

1. Tystiolaeth o ffeithiau

- Tystiolaeth uniongyrchol o'u profiad.
- Tystiolaeth 'achlust' – mewn achosion sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Plant, mae'r rheolau dystiolaeth arferol yn cael eu hamrywio er mwyn i dyst allu dweud wrth y llys hefyd beth sydd wedi cael ei ddweud wrtho, ond dylid nodi ffynonellau dystiolaeth achust.

2. Tystiolaeth o farn

- Fel tyst proffesiynol, disgwylir i'r gweithiwr cymdeithasol hefyd ddadansoddi'r ffeithiau i egluro ei farn ynglŷn â pha faterion yw'r rhai perthnasol a sut y dylent gael eu datrys (Conroy Harris, 2014).

Po agosaf yw'r cysylltiad rhwng y dystiolaeth a'i ffynhonnell, po fwyaf y pwysoliad y bydd y llys yn ei roi iddi. Tystiolaeth ddogfennol sy'n cynnwys y dystiolaeth orau sydd ar gael fel arfer – po leiaf yw'r cyfnod rhwng y digwyddiad a'r adeg y cafodd y dystiolaeth ei chofnodi, po gryfaf fydd y dystiolaeth.

Wrth gwrs, gall y llys weithredu ar sail dystiolaeth achlust. Ond mae dystiolaeth uniongyrchol gan y rhai sy'n gallu siarad am yr hyn y maent hwy eu hunain wedi ei weld a'i glywed yn fwy argyhoeddiadol ac yn llai agored i groesholi. (Syr James Munby, Llywydd yr Adran Deulu, 2013a)

Beth mae'n rhaid i'r llys ei benderfynu

Mae'n werth crynhoi'r camau o'r broses gwneud penderfyniadau y mae'n rhaid i'r llys fynd drwyddynt er mwyn penderfynu a ddylid gwneud gorchymyn.

- > A yw'r plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddiodeff 'niwed sylweddol' – diffinnir 'niwed' yn adran 31(9) o Ddeddf Plant 1989 fel trin plentyn yn wael neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad plentyn. Mae hyn yn cynnwys nam sy'n deillio o weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin, felly mae'n cynnwys dod i gysylltiad â thrais domestig.
- > Bod y niwed, neu'r tebygolrwydd o niwed, yn cael ei briodoli i un o'r canlynol:

- Y gofal a roddir ddim yn ofal o'r math y byddai'n rhesymol disgwyl i riant ei roi, neu
- Y plentyn y tu hwnt i reolaeth rhieni (yn anaml iawn y defnyddir yr is-adran hon bellach.)

Y ffactorau hyn yw'r 'meini prawf trothwy' y cyfeirir atynt yn adran 31(2) o *Ddeddf Plant 1989*. Ni all llys benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn ai peidio oni bai fod y meini prawf trothwy'n cael eu bodloni.

Os yw'r meini prawf trothwy'n cael eu bodloni, rhaid i'r llys benderfynu:

- > A ddylid gwneud gorchymyn. Wrth wneud y penderfyniad hwn, rhaid i'r llys gymhwyso'r egwyddor 'dim gorchymyn' (adran 1(5) *Deddf Plant 1989*) – hynny yw, ni ddylai'r llys wneud gorchymyn oni bai y byddai gwneud hynny yn well i'r plentyn na pheidio â gwneud hynny. Mae'r egwyddor 'dim gorchymyn' yn berthnasol i'r llys yn hytrach na'r awdurdod lleol. Ni ddylai atal yr awdurdod lleol rhag gwneud cais – ni ddylai'r awdurdod lleol ragweld amcan y llys drwy dybio na fyddai'n gwneud gorchymyn (Carr a Goosey, 2017).
- > Os yw'n well gwneud gorchymyn, yna pa orchymyn penodol.

Mae'r llys yn pwysu a mesur y dystiolaeth er mwyn penderfynu a yw'r trothwy 'niwed sylweddol' wedi cael ei gyrraedd yn ôl pwysau tebygolrwydd. Yn syml iawn, mewn achos lle mae'r awdurdod lleol yn dadlau bod y plentyn

'wedi dioddef' niwed sylweddol mae hyn yn golygu bod rhaid i'r llys fod yn fodlon ei bod yn fwy na thebyg bod y ffeithiau honedig wedi digwydd. Os yw'r awdurdod lleol yn dadlau bod y plentyn 'yn debygol' o ddioddef niwed sylweddol, rhaid i'r llys fod yn fodlon ei bod yn fwy na thebyg bod y ffeithiau y mae'r risg honno'n seiliedig arnynt wedi digwydd.

Cadarnhawyd y defnydd o 'bwysau tebygolrwydd' gan Dŷ'r Arglwyddi yn *Re B (Plant) [2008] UKHL 35*.¹ Fel y dywedodd y Farwnes Hale yn yr achos hwnnw, mae asesu'r tebygolrwydd o niwed sylweddol yn:

... rhagdybiaeth sy'n deillio o ffeithiau sy'n bodoli'n barod, yn aml o nifer o ffeithiau o'r fath, ynglŷn â'r hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol, ynglŷn â chymeriad a phersonoliaeth y bobl sy'n gysylltiedig, ynglŷn â'r pethau y maent wedi eu dweud a'u gwneud, ac yn y blaen.

Mewn geiriau eraill, gall y llys wneud rhagdybiaeth dim ond ar sail ffeithiau sy'n cael eu profi. Gall hyn fod yn anodd iawn mewn achosion lle rhagdybir camdriniaeth emosiynol. Yn *Re B [2013] UKSC 33*, amlinellodd y Fonesig Hale y dull gweithredu a ganlyn:

... os oes anghydfod ynglŷn â'r trothwy, efallai y byddai o fudd i'r llysoedd gadw'r canlynol mewn cof:

(i) Nid gwella natur yw tasg y llys na hyd yn oed sicrhau bod pob plentyn yn cael bywyd hapus a chyflawn, ond bod

¹ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed12688

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Tystiolaeth a safon profi yn y llys teulu

yn fodlon bod y trothwy statudol wedi'i groesi.

(ii) Wrth benderfynu a yw'r trothwy wedi'i groesi dylai'r llys nodi, mor fanwl ag sy'n bosibl, pa fath o niwed y mae'r plentyn yn ei ddioddef neu y mae'n debygol o'i ddioddef. Mae hyn yn arbennig o wir os nad yw'r plentyn wedi dioddef unrhyw niwed eto, neu unrhyw niwed sylweddol, ac os yw'r niwed sy'n cael ei ofni yn amharu ar ddatblygiad deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol.

(iii) Niwed sylweddol yw niwed sy'n 'sylweddol, yn werth rhoi sylw iddo neu'n bwysig'. Dylai'r llys nodi pam ac ym mha ffordd y mae'r niwed yn sylweddol. Unwaith eto, gallai hyn fod yn arbennig o bwysig os amhariad ar ddatblygiad deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol nad yw wedi digwydd eto yw'r niwed dan sylw.

(iv) Rhaid i'r niwed allu cael ei briodoli i ddiffyg, neu'r tebygolrwydd o ddiffyg, gofal rhesymol gan rieni, ac nid i nodweddion a phersonoliaeth y plentyn a/neu rieni. Dylai'r llys nodi sut mae gofal rhieni yn ddiffygiol (neu'n debygol o fod yn ddiffygiol) o'i gymharu â'r hyn y byddai'n rhesymol ei ddisgwyl.

(v) Os nad oes niwed go iawn wedi'i ddioddef eto, rhaid i'r llys ystyried i ba raddau y mae niwed yn debygol o gael ei ddioddef yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu ystyried i ba raddau y mae'n debygol y bydd ymddygiad y rhieni yn y dyfodol yn

cyfateb i ddiffyg gofal rhesymol gan riant. Bydd hefyd yn golygu ystyried y berthynas rhwng maint y niwed sy'n cael ei ofni a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd. Nid yw dweud bod 'risg' yn bodoli yn ddigon. Rhaid i'r llys fod yn fodlon, drwy dystiolaeth berthnasol a digonol, bod y niwed yn debygol.²

Goblygiadau i ymarfer gwaith cymdeithasol – sefydlu trothwy

Mae rheolau'r llys yn nodi bod angen cyflwyno dogfennau allweddol i'r llys wrth wneud cais, gan gynnwys y Datganiad Gwaith Cymdeithasol cychwynnol a'r Gronoleg Gwaith Cymdeithasol. Mae'r dogfennau hyn felly'n bwysig i achos yr awdurdod lleol gan eu bod yn cadarnhau'r ddadl bod y meini prawf trothwy wedi'u cyrraedd. Os gwneir cais am orchymyn gofal interim, yna rhaid i'r rhesymau dros hyn gael eu nodi'n glir.

Oni bai fod y rhiant/rhieni yn derbyn y Datganiad Trothwy, sy'n nodi'r sail ffeithiol a gyflwynir gan yr awdurdod lleol dros ei orchymyn, bydd y gweithiwr cymdeithasol (ac eraill) yn rhoi tystiolaeth i sefydlu'r meini prawf trothwy.

Wrth ddrafftio datganiadau, dylai'r ymarferydd gadw mewn cof ei fod yn debygol o gael ei herio ar unrhyw agwedd ar y dystiolaeth y mae'n ei defnyddio, felly mae cywirdeb a

² www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed114409

dadansoddi gofalus yn hanfodol (Watt, 2013). Bydd yn anodd i rieni herio datganiad sydd wedi'i ddraffio'n dda, a bydd datganiad da'n golygu bod llai o faterion i'r llys glywed tystiolaeth arnynt.

Amlinellodd Syr James Munby dair egwyddor sylfaenol ar gyfer awdurdodau lleol wrth ddatgan trothwy yn *Re A* [2015] EWFC 11:³

1. Canfyddiad ffeithiol a phrawf.

Nodwedd gyffredin mewn achosion gofal yw bod awdurdod lleol yn dweud nad yw rhiant yn cyfaddef, sylweddoli neu gydnabod rhywbeth, neu nad yw'n sylweddoli neu'n cydnabod pryder yr awdurdod lleol ynglŷn â rhywbeth. Os oes anghydfod ynglŷn â'r pwynt hwn, rhaid i'r awdurdod lleol brofi'r ffaith a chadarnhau bod iddi'r arwyddocâd a briodolir iddi gan yr awdurdod lleol. Tynnodd y Llywydd hefyd linell bendant rhwng tystiolaeth sy'n ofynnol i brofi honiad a datgan ffeithiau. Dim ond datganiadau ffeithiol ddylai gael eu pledio wrth ffurfio trothwy a rhestr o'r canfyddiadau a geisir. Ni ddylid defnyddio honiadau ei bod yn 'ymddangos bod X wedi' dweud celwydd neu gyd-dwyllo, bod gwahanol bobl wedi 'datgan' neu 'ddweud' pethau, a bod 'honiad' wedi'i dderbyn. Nid 'mae'n ymddangos bod X wedi dweud celwydd' neu 'mae ef yn dweud' yw'r honiad perthnasol; yr honiad perthnasol, os oes tystiolaeth i'w gefnogi, yw 'mae X wedi dweud celwydd' neu 'mae ef wedi Y'.

2. Yr angen i sefydlu cysylltiad rhwng ffeithiau y dibynnir arnynt mewn dogfen drothwy a'r casgliad bod y plentyn wedi dioddef, neu bod risg iddo ddioddef, niwed sylweddol.

Weithiau bydd y cysylltiad hwn yn amlwg, er enghraifft lle mae'r ffeithiau sy'n cael eu profi yn cadarnhau niwed corfforol. Weithiau bydd y cysylltiad yn llai amlwg, er enghraifft os yw'r honiad ddim ond yn dweud bod risg i'r plentyn ddioddef niwed emosiynol neu esgeulustod. Yn *Re A*, elfen bwysig o achos yr awdurdod lleol oedd bod y tad 'ddim yn onest gyda gweithwyr proffesiynol', ei fod 'yn bychanu materion pwysig' a'i fod 'yn anaeddfed a ddim yn gweld bod materion yn bwysig'. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn arwain yn naturiol at gasgliad bod risg i'r plentyn gael ei esgeuluso. Rhaid i dystiolaeth a chyflwyniadau'r awdurdod lleol amlinellu'r ddadl ac egluro'n glir pam y dywedir, yn yr achos penodol, bod y casgliad yn dilyn o'r ffeithiau.

3. Bydd y llys yn cydnabod gwahanolddulliau rhianta, ac nid teilwra cymdeithasol a darparu cartrefi perfffaith i bob plentyn yw ei nod.

Gellir olrhain yr egwyddor hon yn ôl i'r cyfeiriad yn adran 31 at 'niwed sylweddol', sy'n digwydd oherwydd bod plentyn wedi cael ei drin yn wael.

Mewn achos a glywyd yng Nghymru yn 2016, *Re A (Plentyn)* [2016] EWFC B101⁴, cyfeiriodd y Barnwr Gareth Jones at achos

³ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed143260

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Tystiolaeth a safon profi yn y llys teulu

Re A uchod wrth ystyried yn ofalus y ddadl ynghylch trothwy a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol. Eglurodd nad oedd y ffaith fod saith o blant wedi cael eu cymryd oddi ar y fam drwy orchmynion gofal yn golygu y byddai ei hwythfed plentyn yn cael ei gymryd oddi arni yn awtomatig. Roedd angen profi'r trothwy ar gyfer niwed sylweddol o hyd. Dywedodd y barnwr ei fod yn dibynnu ar y fframwaith cyfreithiol o gefnogaeth i'r teulu yn unol â'u llesiant dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Gallai hyn gynnwys gofyn am asesiad o anghenion 'gofal a chymorth' y rhiant/rhieni biolegol yn ôl ei haeddiant ei hun / eu haeddiant eu hunain ac ar wahân i'w rôl rianta dan adran 19 o'r Ddeddf.

Os yw'r meini prawf trothwy'n cael eu profi, lles y plentyn yw'r peth pwysicaf i'r llys ei ystyried wrth wneud penderfyniad ynglŷn â gorchymyn. Yn unol â'r egwyddor lles a nodwyd yn adran 1(3) o *Ddeddf Plant 1989*, rhaid i'r llys ystyried yr eitemau hynny sydd ar y 'rhestr wirio llesiant':

- > dymuniadau a theimladau'r plentyn
- > ei anghenion corfforol, emosiynol ac addysgol
- > effaith debygol newid mewn amgylchiadau
- > oed, rhyw, cefndir a nodweddion perthnasol
- > niwed a ddiodefwyd neu y mae risg o'i ddiodef

- > gallu pob rhiant neu bobl berthnasol eraill
- > y gwahanol bwerau sydd ar gael i'r llys.

Yn y cam lles dilynol, cyflwynir cynllun gofal, a fydd yn pennu'r cynlluniau ar gyfer llesiant y plentyn yn y dyfodol. Dyma lle bydd gweithiwr cymdeithasol yn fwy tebygol o roi tystiolaeth o farn ynglŷn â risg yn y dyfodol i helpu'r llys i benderfynu a fyddai'n well gwneud gorchymyn – ac os hynny, pa orchymyn sy'n ymateb cyfreithlon a chymesur i ddiwallu anghenion y plentyn penodol.

Goblygiadau i ymarfer gwaith cymdeithasol – y cynllun gofal sydd gerbron y llys

Pan fydd trothwy adran 31 wedi cael ei gyrraedd, rhaid i'r awdurdod lleol lunio cynllun gofal sy'n amlinellu'r opsiynau sefydlogrwydd realistig. Os mabwysiadu yw'r cynllun, bydd cyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran y plentyn a'r rhieni yn aml yn gofyn am dystiolaeth o gyfraddau llwyddiant yr awdurdod lleol penodol wrth leoli plant i gael eu mabwysiadu yn gyflym, a nifer y gorchmynion lleoli sy'n cael eu dirymu oherwydd methiant i ddod o hyd i rieni i fabwysiadu plant. Bydd angen i gynlluniau gynnwys manylion y cymorth sydd i'w gynnig i fabwysiadwyr, gwarcheidwaid arbennig neu ofalwyr eraill.

⁴ www.bailii.org/ew/cases/EWFC/OJ/2016/B101.html

Fel y nodwyd yn y llawlyfr (sy'n rhan o'r pecyn adnoddau hwn), mae angen gwerthuso'r holl opsiynau realistig. Bydd y rhain yn dibynnu ar anghenion y plentyn unigol a gallu ei rieni a'i deulu estynedig i ddiwallu'r anghenion hynny. Efallai y byddai'n werth ystyried ymchwil i gyfraddau llwyddiant a methiant perthnasol gwahanol fathau o leoliadau. Cymharodd Selwyn a Masson (2014) y rhain a daethant i'r casgliadau a ganlyn:

1. Mae cyfraddau torri ar draws a methiant yn uwch ar gyfer plant sy'n cael eu hailuno â'u rhieni ar ôl achos gofal.
2. Mae plant yn fwy tebygol o orfod newid lleoliad os ydynt mewn gofal maeth o gymharu â lleoliadau gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu orchymyn preswyllo (gorchymyn trefniadau plant erbyn hyn).
3. Mae torri ar draws gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig a gorchymyn preswyllo, os yw'n digwydd, yn tueddu i ddigwydd cyn pen dwy flynedd, tra mae torri ar draws trefniadau mabwysiadau yn fwy tebygol o ddigwydd ym mlynnyddoedd yr ardegau (fodd bynnag, gan mai yn 2002 y cyflwynwyd gorchymynion gwarcheidiaeth arbennig, mae data hydredol am ganlyniadau yn dal i ddod i'r amlwg).
4. Y gyfradd torri ar draws trefniadau y cyfeiriwyd ati yn astudiaethau Selwyn oedd 3.2 y cant o orchymynion mabwysiadu dros gyfnod o 12 mlynedd. Roedd torri ar draws trefniadau mabwysiadu 13 gwaith yn fwy tebygol

o ddigwydd pan oedd plant yn hŷn na phedair oed, o gymharu â thorri ar draws trefniadau ar gyfer plant a oedd yn cael eu mabwysiadu pan oeddent yn iau.

5. Roedd y gyfradd torri ar draws gorchymynion gwarcheidiaeth arbennig yn 5.5 y cant dros bum mlynedd, ac roedd y gyfradd torri ar draws gorchymynion preswyllo yn 25 y cant dros chwe blynedd.

Mae cyfraith achosion yn ddiweddar, *Re W* [2016] EWCA Civ 793⁵, wedi pwysleisio bod yn rhaid i'r llys wneud dadansoddiad o hawliau dynol bob amser. Mae hyn yn cynnwys hawliau rhieni i barch i'w bywyd preifat a'u bywyd teuluol. Er hyn, os yw aelod o'r teulu yn barod ac yn abl i ofalu am blentyn na ellir gadael iddo ddychwelyd at ei rieni, nid oes rhagdybiaeth bod gan y plentyn hawl i gael ei leoli gyda'r aelod hwnnw o'r teulu. Rhaid pwysu a mesur manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau. Rhaid i'r asesiadau gwaith cymdeithasol werthuso ymlyniad y plentyn wrth ei ofalwyr. Os yw plentyn eisoes wedi ymlynu wrth geiswyr mabwysiadol, nid oes rhagdybiaeth y byddai lleoliad amgen gyda theulu estynedig yn diwallu ei anghenion lles yn well.

CLODDIO'N DDYFNACH

Mae goblygiadau dyfarniad *Re W* yn cael eu harchwilio gan Syr Andrew McFarlane mewn araith a roddodd

⁵ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed162144

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Tystiolaeth a safon profi yn y llys teulu

ym Mawrth 2017. Gallwch lawrlwytho trawsgrifiad ar www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2017/03/lecture-by-lj-mcfarlane-20160309.pdf neu bodlediad ar: <https://archive.org/details/moj-london-09032017>.

O ganlyniad, mae angen i weithwyr cymdeithasol ddiffinio risg a thebygolrwydd niwed yn y dyfodol mewn tri cham yn ystod achos cyfreithiol:

- > Ar y dechrau, wrth sefydlu bod y meini prawf trothwy (adran 31 o *Ddeddf Plant 1989*) wedi cael eu bodloni er mwyn gwneud cais am orchymyn interim neu orchymyn goruchwyllo (adran 38). (Bydd yr awdurdod lleol wedi derbyn cyngor cyfreithiol mewn 'cyfarfod cynllunio cyfreithiol'.)
- > Mewn gwrandawriad terfynol neu wrandawriad 'canfyddiad ffeithiol' cynharach.
- > Wrth wneud argymhellion yn ymwneud â pha orchymyn/orchmynion i'w (g) wneud.

OFFERYN 10

Gall gweithwyr cymdeithasol ddefnyddio Offeryn 10 i'w helpu i fyfyrion ar ansawdd y dystiolaeth yn eu hadroddiadau llys. Gellir ei ddefnyddio wrth oruchwyllo neu mewn trafodaethau tîm.

Sefydlu'r trothwy ar gyfer mynd â phlentyn oddi ar ei rieni dan orchymyn gofal interim

Rhaid i dystiolaeth gwaith cymdeithasol i gefnogi mynd â phlentyn oddi ar ei rieni dan orchymyn gofal interim ddilyn yr egwyddorion hyn sydd wedi'u nodi mewn cyfraith achosion:

- > *Mae gorchymyn gofal interim yn gam diduedd a fwriadwyd er mwyn cadw'r status quo tra'n disgwyl am y gwrandawriad terfynol; ni ddylai gael ei weld fel mantais dactegol i'r awdurdod lleol (Re G (Minoriaid) (Gorchymyn Gofal Interim) [1993] 2 FLR 839). Er mwyn penderfynu a ddylid caniatáu gorchymyn dros dro mae angen asesiad o les y plentyn a'r angen i'w amddiffyn yn ystod y cyfnod interim, ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd (Re B (Achos Gofal: Gorchymyn Gofal Interim) [2009] EWCA Civ 1254). Rhaid i'r penderfyniad interim gael ei gyfyngu i faterion na allant aros tan y gwrandawriad terfynol ac ni ddylai ymestyn i faterion sy'n cael eu paratoi ar gyfer penderfyniad yn y gwrandawriad hwnnw (Re B (Gwrthod Caniatáu Gorchymyn Interim) [2012] EWCA Civ 1275⁶).*
- > *Os yw gorchymyn gofal interim yn arwain at gymryd plentyn oddi wrth*

⁶ www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2012/1275.html

ei rieni, yr unig adeg y gall hyn fod yn angenrheidiol yw os bydd diogelwch y plentyn yn galw am wahanu ar unwaith (Re S (Awdurdodi Cymryd Plant oddi wrth eu Rhieni ar Unwaith) [2010] EWCA Civ 421⁷). Nid yw ‘diogelwch’ wedi’i gyfyngu i ddiogelwch corfforol. Mae hefyd yn cynnwys diogelwch emosiynol neu les seicolegol (Re GR (Plant) [2010] EWCA Civ 871⁸).

Comisiynu tystion arbenigol

Er bod achosion teulu yn gallu bod yn gymhleth a bod angen tystiolaeth arbenigol weithiau, yn ystod y blynyddoedd cyn yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol (2011) gwelwyd pryder sylweddol ynglŷn â gorddibyniaeth ar dystion arbenigol. Roedd yr angen i sicrhau nad ydynt yn cael eu gorddefnyddio yn thema allweddol yn yr adolygiad. I’r perwyl hwn, a chan ddisgwyl newid deddfwriaethol yn Ebrill 2014, cafodd y Rheolau Trefniadaeth Teulu eu diwygio yn Ionawr 2013 mewn cysylltiad â defnyddio arbenigwyr a’r rhagdybiaeth y bydd achosion yn cael eu cwblhau mewn 26 wythnos.

Mae’r diwygiad i Gyfarwyddyd Ymarfer 25B yn cyfyngu’r llys i benodi arbenigwr dim ond os yw hynny’n ‘angenrheidiol er mwyn helpu’r llys i ddatrys yr achos’. Newidiodd hyn y prawf ar gyfer derbyn tystiolaeth o’r hyn sy’n ‘rhesymol’ i’r hyn

sy’n ‘angenrheidiol’. Yng ngeiriau Syr James Munby, Llywydd yr Adran Deulu, mae hyn ‘yn codi’r bar yn sylweddol’ (Munby, 2013b). Mae’n golygu bod tystion arbenigol yn cael eu penodi’n llai aml yn awr a’u bod yn debygol o gael eu cyfyngu i feysydd arbenigol. Mae hefyd yn cefnogi newid sylweddol ym mhwyslais gwaith cyn-achos.

Felly, ym mhob achos rhaid i ni ystyried y rhesymau y tu ôl i’r cais am adroddiad arbenigwr. Pam y mae angen y dystiolaeth ychwanegol hon? Sut y bydd yn ychwanegu at y wybodaeth sydd gan y llys yn barod? Oes yna ddim arbenigwr yn yr achos yn barod a all ddarparu’r wybodaeth honno – y gweithiwr cymdeithasol neu warcheidwad y plant? (Munby, 2013b)

O ran beth yw ystyr y gair ‘angenrheidiol’, mae Munby yn dweud bod yr ateb i’w weld yn Re H-L (Plentyn) [2013] EWCA Civ 655, para [3] – mae’n golygu ‘yr hyn sy’n ofynnol, yr hyn y gelwir amdano yn hytrach na’r hyn sydd ddim ond yn ddewisol neu’n rhesymol neu’n ddymunol’⁹ (Munby, 2013b).

Dehongliadau llysoedd o’r prawf o’r angen am dystiolaeth arbenigol

- > Rhaid gosod paramedrau clir ar gyfer cyfarwyddo arbenigwyr, felly dylai’r barnwr wybod am y llythyr cyfarwy-

⁷ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed57731

⁸ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed63478

⁹ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed114450

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Tystiolaeth a safon profi yn y llys teulu

ddo, y ffrâm amser ar gyfer adrodd, a graddfa ffioedd yr arbenigwr ar yr adeg y gofynnir am awdurdod.

*Re AD (Plant) (Canfyddiad Ffeithiol: Ail Wrandawriad) [2016] EWHC 2912 (Fam)*¹⁰

- > Mae adran 13 o *Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014* yn darparu cynllun statudol â meini prawf ar gyfer tystiolaeth arbenigwyr a rhaid ystyried y meini prawf hyn. 'Mae lles a chyfiawnder avhosion yn elfennau allweddol o dasg [rheoli achos gan y barnwr] ac os byddant ar goll bydd yn rhaid i'r llys hwn [Llys Apêl] ymyrryd.' *Re C (Plentynt) [2015] EWCA Civ 539*¹¹
- > Mewn achos lle roedd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi gwrthod ariannu asesiad gan weithiwr cymdeithasol annibynnol, yn dilyn gorchymyn llys yn awdurdodi'r cyfarwyddyd, dywedodd y Llys Apêl y dylai pob gorchymyn yn y dyfodol sy'n dweud bod angen cyfarwyddo arbenigwr, beth bynnag yw'r ddisgyblaeth, gynnwys datganiad penodol yn nodi bod 'y llys yn fodlon bod penodi [enw], yn unol ag adran 13(6) o *Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014*, yn angenrheidiol er mwyn helpu'r llys i ddatrys yr achos yn gyfiawn'. *Re F (Plentynt) [2014] EWCA Civ 789*¹²
- > Disgwylir adroddiadau cryno nawr. Dylai arbenigwyr gydymffurfio â manylion yr hyn y gofynnir iddynt ei

wneud yn hytrach na darparu trosolwg pediatrig hir. (Cafodd yr achos hwn ei glywed cyn i adran 13 ddod i rym ond mae wedi cael ei weld gan gyfreithwyr fel rhywbeth sy'n atal trosolygon pediatrig, gan gyfyngu adroddiadau pediatrig i faterion arbenigol yn ymwneud ag anafiadau neu gyflyrau.) *Re IA (Plentynt) [2013] EWHC 2499 (Fam)*¹³

Barn arbenigol mewn cyn-achos

Roedd yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a gyflwynwyd yng Ngorffennaf 2013 yn rhoi pwyslais penodol ar bwysigrwydd gwaith cyn-achos awdurdodau lleol a'r gwrandawriad rheoli achos. Mae'r pwyslais hwn ar asesiad cyn-achos yn golygu y dylid ystyried yr angen am farn arbenigol cyn achos yn ofalus. Disgwylir cam o'r fath fel arfer mewn rhai achosion, er enghraifft, os amheuir bod gan riant anabledd dysgu neu os oes ganddo broblemau iechyd meddwl. Fodd bynnag, ni ddylai'r awdurdod lleol ragdybio bod angen cynnwys arbenigwr pan mae'r gweithiwr cymdeithasol eisoes yn gallu darparu asesiad da sy'n seiliedig ar dystiolaeth a datganiad wedi'i ddadlau'n dda. Gan fod y prawf wedi newid i un sy'n seiliedig ar 'angenrheidrwydd' efallai y bydd angen comisiynu adroddiad gan arbenigwr annibynnol o hyd mewn achosion lle mae amheuaeth nad yw anaf wedi'i achosi'n ddamweiniol neu asesiad o gapasiti i ymglyfreitha – ond nid lle

¹⁰ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed168288

¹¹ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed145323

¹² www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed130403

¹³ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed116036

mae angen asesiad o allu rhianta. Dylai hyn gael ei wneud gan weithiwr cymdeithasol yr awdurdod lleol.

Rôl yr arbenigwr

Mae'n bwysig gwahaniaethu swyddogaeth yr arbenigwr ym mhob achos penodol. Ai cynorthwyo'r llys i ganfod beth sydd wedi digwydd yw ei rôl – er enghraifft, natur anaf a sut y digwyddodd? Ynteu ai edrych ar anawsterau penodol a wynebair gan riant sydd y tu allan i arbenigedd y gweithiwr cymdeithasol yw ei rôl, a rhoi cyngor ynglŷn â beth mae hyn yn ei olygu o ran gallu'r rhiant i ddiwallu anghenion y plentyn – er enghraifft, effaith anaf trawmatig i'r ymennydd ar rianta.

OFFERYN 3

Bydd yr offeryn hwn yn eich helpu i feddwl pryd y bydd angen gofyn am gael penodi arbenigwr.

OFFERYN 4

Bydd yr offeryn hwn yn helpu gweithwyr cymdeithasol i fyfyrion ar eu meysydd arbenigedd eu hunain.

Wrth benderfynu a ddylid caniatáu cyfarwyddo arbenigwr, bydd angen i'r llys gydbwysu hawliau perthynol partion i dreial teg (Erthygl 6) a'r hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol (Erthygl 8) dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sydd wedi'i ymgorffori yn *Neddf Hawliau Dynol 1998*. Mae

crynodeb o gyfres o achosion ar asesiadau mewn ceisiadau am orchymyn gofal interim (Johnson, 2011) yn nodi bod yn rhaid i'r llys sicrhau bod yr achos wedi cael ei ymchwilio'n llawn a bod yr holl dystiolaeth berthnasol yn ei lle, a rhaid iddo gydbwysu ffactorau o blaid ac yn erbyn asesiad.

Rhieni a allai fod heb gapasiti

Os nad oes gan riant gapasiti, oherwydd anabledd neu salwch meddwl, dylid dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cyfiawnder Teuluol (2010).

CLODDIO'N DDYFNACH

Mae canllawiau'r Cyngor Cyfiawnder Teuluol (2010) yn disgrifio ymarfer da mewn achosion cyfraith gyhoeddus lle nad oes gan riant gapasiti i gynnal achos. Mae'r rhain i'w gweld ar: www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/FJC/Publications/Parents_who_Lack_Capacity_with_appendices.pdf

Canfu astudiaeth o nodweddion rhieni sydd wedi cael eu cynrychioli gan y Cyfreithiwr Swyddogol gan nad oedd ganddynt gapasiti meddyliol fod asesiadau o gapasiti weithiau'n cael eu gwneud yn hwyrach nag a oedd yn deg i'r rhieni. Nododd yr ymchwilywyr y dylai awdurdodau lleol, a chyfreithwyr sy'n cynrychioli partion sy'n cael eu gwarchod, ystyried goblygiadau'r ddyletswydd i amddiffyn yr hawl i gyfiawnder gweithdrefnol i gyfarfodydd

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Tystiolaeth a safon profi yn y llys teulu

y tu allan i'r llys yn ogystal ag yn y broses llys ei hun. Mae'n ymddangos bod y graddau y mae awdurdodau lleol yn cyllido eiriolwyr i helpu rhieni i fynd i gyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd gyda'u cyfreithiwr, cynadleddau amddiffyn plant a chyfarfodydd eraill lle gwneir penderfyniadau allweddol yn amrywio (Welbourne et al, 2017).

CLODDIO'N DDYFNACH

Mae Mencap Cymru wedi datblygu pecyn i gefnogi rhieni sydd ag anableddau dysgu drwy'r system amddiffyn plant. Mae ar gael ar: <https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/chwilio-ymchwil-am-ofal/supporting-parents-with-a-learning-disability-through-the-child-protection-system>

Gwarcheidwad plant

Rôl y gwarcheidwad plant yw gofalu am fuddiannau'r plentyn mewn achos gofal. Mae'r gwarcheidwad yn cael ei rymuso ac mae ganddo ddyletswydd i gynnal ymchwiliad i amgylchiadau'r plentyn a gwneud argymhellion i'r llys yn unol â'r dyletswyddau sy'n cael eu hamlinellu yn Rhan 16 o Reolau Trefniadaeth Teulu 2010 a Chyfarwyddyd Ymarfer 16A. Er hyn, eu tasg yw craffu ar yr asesiadau sydd wedi cael eu gwneud, nid cychwyn ar ddarn o waith fel dewis arall yn lle penodi arbenigwr.

Dyletswyddau'r tyst arbenigol

Cyhoeddodd y Cyngor Cyfiawnder Teuluol Safonau drafft ar gyfer Tystion Arbenigol ar gyfer ymgynghoriad ym Mai 2013 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Cyngor Cyfiawnder Teuluol, 2013). Mae'r Safonau terfynol i'w gweld yn awr mewn Atodiad i Gyfarwyddyd Ymarfer 25B¹⁴, a ddaeth i rym yn Hydref 2014. Maent yn berthnasol i bob tyst arbenigol sy'n cael ei gomisiynu gan y llys, gan gynnwys arbenigwyr meddygol, seicolegwyr a gweithwyr cymdeithasol annibynnol.

1. Mae maes cymhwysedd yr arbenigwr yn briodol i'r mater(ion) y mae'r llys wedi nodi bod angen barn arno/arnynt, a gwelir tystiolaeth o brofiad perthnasol yn ei CV.

2. Mae'r arbenigwr wedi bod yn weithgar yn y maes gwaith neu ymarfer (fel ymarferydd neu academydd sy'n cael ei arfarnu gan gymheiriaid), mae ganddo ddigon o brofiad o'r materion sy'n berthnasol i'r achos cyfredol, ac mae'n gyfarwydd â'r ymarfer a'r farn bresennol yn ei hehangder.

3. Mae gan yr arbenigwr wybodaeth ddigonol am y normau cymdeithasol, datblygiadol a diwylliannol a'r egwyddorion cyfreithiol cydnabyddedig sy'n berthnasol i'r achos sy'n cael ei gyflwyno yn yr ymchwiliad cychwynnol, ac mae ganddo sgiliau cymhwysedd diwylliannol i ymdrin ag amgylchiadau'r achos.

¹⁴ www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/practice-direction-25b-the-duties-of-an-expert,-the-experts-report-and-arrangements-for-an-expert-to-attend-court

4. Mae'r arbenigwr yn cadw i fyny â'r Datblygiad Proffesiynol Parhaus sy'n briodol i'w ddisgyblaeth a'i arbenigedd, ac mae'n ymwneud yn barhaus â mecanweithiau goruchwylio cydnabyddedig sy'n berthnasol i'w ymarfer.

5. Os yw ymarfer proffesiynol cyfredol yr arbenigwr yn cael ei reoleiddio gan gorff statudol yn y Deyrnas Unedig mae ganddo drwydded gyfredol i ymarfer neu gymhwyster cyfatebol.

6. Os nad yw maes ymarfer proffesiynol yr arbenigwr yn ddarostyngedig i drefniadau cofrestru statudol (er enghraifft, seicotherapi plant, therapi teulu systemig, cyfryngu, ac arbenigwyr mewn penodiadau academiaidd yn unig) dylai'r arbenigwr ddangos cymwysterau priodol a/neu gofrestrriad â chorff proffesiynol perthnasol ar gyfer pob achos unigol.

7. Bydd yr arbenigwr yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion diogelu angenrheidiol, a disgwyliadau diogelwch gwybodaeth, a bydd ganddo yswiriant indemniad proffesiynol.

8. Os yw ymarfer proffesiynol presennol yr arbenigwr y tu allan i'r Deyrnas Unedig, gall ddangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Cyfiawnder Teuluol (2011) 'Guidelines for the instruction of medical experts from overseas in family cases'.

9. Bydd yr arbenigwr wedi dilyn hyfforddiant priodol, gweithgaredd

diweddarau neu sicrhau ansawdd – gan gynnwys gofyn am adborth o achosion y mae wedi darparu tystiolaeth ynddynt – sy'n berthnasol i rôl yr arbenigwr mewn llysoedd teulu yng Nghymru a Lloegr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

10. Mae gan yr arbenigwr wybodaeth ddigonol am ofynion Cyfarwyddiadau Ymarfer sy'n berthnasol i ddarparu adroddiadau a rhoi tystiolaeth i'r llysoedd teulu yng Nghymru ac mae'n cydymffurfio â'r gofynion hyn. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r gofyniad i nodi beth yw ei farn ynglŷn â'r achos dan sylw o'i gymharu â safbwyntiau prif ffrwd eraill sy'n cael eu derbyn a'r sbectrwm barn cyffredinol yn y Deyrnas Unedig.

11. Dylai'r arbenigwr nodi faint o dâl yr awr mae'n ei godi cyn cytuno i dderbyn cyfarwyddyd, a rhoi amcangyfrif o nifer yr oriau y mae'n debygol y bydd eu hangen i baratoi'r adroddiad.

Roedd ymchwil a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn argymhell y dylai adroddiad tyst arbenigol da fod yn llai nag 20 tudalen o hyd, ac yn ddelfrydol dylai fod 'yn dechnegol ond yn ddealladwy'. Fel gweithwyr cymdeithasol, ni ddylai eu tystiolaeth wneud dyfarniadau ar ffieithiau na rhagdybio canlyniadau'r achosion (Brown et al, 2014).

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Tystiolaeth a safon profi yn y llys teulu

CLODDIO’N DDYFNACH

Mae canllawiau ar gyfer seicolegwyr fel tystion arbenigol wedi’u cyhoeddi gan Gymdeithas Seicolegol Prydain a’r Cyngor Cyfiawnder Teuluol (2016). Ewch i: www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2016/05/psychologists-as-expert-witnesses.pdf

Tystiolaeth gweithwyr cymdeithasol

Sut, felly, mae’r dystiolaeth sy’n cael ei darparu gan weithwyr cymdeithasol yn ffitio i mewn i’r llun?

Yn eu hadroddiadau a’u dystiolaeth i’r llys, rhaid i weithwyr cymdeithasol ddarparu’r wybodaeth – drwy ffeithiau a thrwy asesiad proffesiynol – y mae ar y llys ei hangen er mwyn gwneud penderfyniadau er pennaf les y plentyn.

Nid pledio achos yr awdurdod lleol yn unig y mae gweithwyr cymdeithasol. Mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith fod achosion teulu yn llai gwrthwynebus ac yn canolbwyntio mwy ar ddatrys problemau, a’r ffaith fod lles y plentyn yn bwysicach na dim byd arall. Felly er bod datganiadau gweithwyr cymdeithasol yn amlinellu achos yr awdurdod lleol, rhaid iddynt hefyd gyflwyno’r holl ffeithiau i’r llys, pa un a yw’r rhain yn hybu achos yr awdurdod lleol ai peidio. Amlinellodd Wall J yn *Re JC (Achosion Gofal: Gweithdrefn)* [1995] 2 FLR 7 7 gyfrifoldebau’r awdurdodau lleol:

*Mae gan bob parti ddyletswydd mewn achos teulu i gyflwyno’i dystiolaeth yn ddiduedd. Ond mae’r ddyletswydd hon yn arbennig o berthnasol yng nghyswllt tystiolaeth awdurdod lleol, yn enwedig pan mae’r awdurdod lleol yn hysbysu’r llys ynglŷn â’i farn ynghylch canlyniad asesiad o allu rhieni neu’n nodi ei argymhellion a’i gynlluniau mewn ffordd arall. Ni ellir gorbwysleisio dyletswydd awdurdodau lleol i fod yn wrthrychol, yn deg ac yn gytbwys. (Syr Nicholas Wall, *Re JC (Achosion Gofal: Gweithdrefn)* [1995])*

Mae’r syniad o resymoldeb yn berthnasol yma:

Mae’r syniad o ‘resymoldeb’ yn hollbwysig i gyfreithwyr oherwydd ei berthnasedd ehangach mewn cyfraith gyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Gellir herio penderfyniadau awdurdodau lleol drwy weithdrefn a elwir yn ‘adolygiad barnwrol’ a gallant gael eu gwrthdroi os ydynt (ymhlith rhesymau eraill) yn cael eu hystyried yn benderfyniadau ‘afresymol’. (Dickens, 2004)

Mewn erthygl cyfnodolyn dan y teitl ‘Being the epitome of reason’, mae Dickens (2005) yn tynnu sylw at y tensiwn a all godi rhwng disgwyliadau gweithiwr cymdeithasol o gyfreithiwr awdurdod lleol a dyletswydd y cyfreithiwr i gadw penderfyniadau gweithiwr cymdeithasol o fewn rhesymau cyfreithiol, yn enwedig mewn cysylltiad â ‘resymoldeb’. Gallai hyn olygu bod angen i’r cyfreithiwr herio’r

gweithiwr cymdeithasol a dweud bod angen cynnwys pob mater perthnasol (nid y rhai sy'n cefnogi achos yr awdurdod yn unig) a bod yn rhaid i bob penderfyniad fod yn ganlyniad dadansoddiad o bob ochr (gan gynnwys y rhieni).

Canfu ymchwil Dickens ei hun (gweler hefyd Dickens, 2006) fod gweithwyr cymdeithasol neu eu rheolwyr weithiau'n teimlo bod cyfreithiwr yn bod yn 'wan' drwy beidio â 'chefnogi safbwynt yr awdurdod lleol' neu 'amddiffyn' y gweithiwr cymdeithasol. Ond yr hyn y mae cyfreithwyr yn ymdrechu i'w gael mewn gwirionedd yw dadl dryloyw ac amddiffynadwy, a rhaid i hyn fod yn seiliedig ar ymarfer gwaith cymdeithasol da a dadansoddiad trylwyr.

Y gweithiwr cymdeithasol fel tyst 'proffesiynol'

Efallai nad yw gweithwyr cymdeithasol yn arbenigwyr at ddibenion Rhan 25 o'r Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010, ond nid yw hynny'n golygu nad ydynt yn arbenigwyr ym mhob ystyr arall o'r gair. Maen nhw yn arbenigwyr, a rhaid i ni eu cydnabod a'u trin nhw fel arbenigwyr. (Syr James Munby, 2013a, Llywydd yr Adran Deulu)

Er bod y gweithiwr cymdeithasol yn arbenigwr ar faterion yn ymwneud â datblygiad cyffredinol plant, nid yw'r llysoedd yn ystyried bod gan weithwyr cymdeithasol arbenigedd mewn

diagnosio cam-drin rhywiol. Yn *Re N (Minorydd) (Cam-drin Plant: Tystiolaeth Fideo)* [1996] 2 FLR 214, dywedodd y Llys Apêl na ddylai hyd yn oed gweithiwr cymdeithasol neu warcheidwad profiadol iawn gynnig barn am honiadau o gam-drin rhywiol; yr unig farn y gallai'r llys ei derbyn fyddai barn seicolegydd neu seiciatrydd plant â lefel uchel o arbenigedd arbenigol.

Fel y nodwyd yn gynharach, bydd dibyniaeth ar dystiolaeth barn yn gyfyngedig fel arfer wrth roi tystiolaeth ar gyfer y meini prawf trothwy. Er hyn, bydd gan dystiolaeth barn fwy o rôl i'w chwarae yn y cam penderfynu pan fydd y llys yn ystyried a ddylid gwneud gorchymyn, ac os hynny, pa fath o orchymyn. Bydd rôl y gweithiwr cymdeithasol yn newid o un sy'n cyflwyno ffeithiau i un sy'n darparu barn, a bydd y farn honno'n seiliedig ar ffeithiau sy'n deillio o dystiolaeth y tyst.

Mae Johns (2011) yn disgrifio rôl y gweithiwr cymdeithasol fel tyst proffesiynol, sy'n golygu bod llysoedd yn disgwyl iddynt 'allu cefnogi eu casgliadau drwy gyfeirio at dystiolaeth seiliedig ar ymchwil yn ogystal â chyfeirio at ffeithiau'r achos'.

Nid oes llawer o ganllawiau i weithwyr cymdeithasol ynglŷn â sut y dylent ymgorffori ymchwil yn eu tystiolaeth a sut y dylai gael ei gyflwyno (neu yn wir, a ddylid ei gyflwyno o gwbl). Er hyn, mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer ar adroddiadau tystion arbenigol yn nodi'n glir:

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Tystiolaeth a safon profi yn y llys teulu

- > Rhaid i adroddiadau fod yn seiliedig ar ymchwil priodol
- > Dylid nodi bylchau mewn ymchwil
- > Dylai adroddiadau fod yn wrthrychol ac yn ddiuedd.

Gellir cymhwyso'r egwyddorion hyn i waith cymdeithasol ac rydym wedi defnyddio'r canllawiau hyn yn y pecyn adnoddau hwn. Ni all gweithwyr cymdeithasol ddewis a dethol yr ymchwil sy'n cefnogi eu hargymhelliad, nac ychwanegu dyfyniad sy'n cefnogi eu barn.

Mae cyfrifoldeb ar weithwyr cymdeithasol i fod yn ymwybodol o'r ymchwil sydd ar gael iddynt drwy'r llysoedd. Bydd hyn yn helpu gweithwyr cymdeithasol i benderfynu a oes angen i ymchwil y cyfeirir ato mewn canllawiau i'r llys gael ei gyfeirnod yn natganiad y gweithiwr cymdeithasol, ynteu a ellir cymryd yn ganiataol y bydd y llys yn gweithio o'r un sail wybodaeth â'r gweithiwr cymdeithasol (gweler yr adran Cloddio'n Ddyfnach isod am Fwletinau Ymchwil Cyfiawnder Teuluol).

Er bod gweithwyr cymdeithasol ambell waith yn y gorffennol wedi croesawu cael ail farn a'r sicrwydd a geir wrth gyfarwyddo arbenigwr neu weithiwr cymdeithasol annibynnol, ni ellir rhagdybio mwyach y bydd unrhyw dystiolaeth arbenigol ar wahân i'r dystiolaeth y mae'r gweithiwr cymdeithasol yn ei chyflwyno i'r achos.

Beth mae barnwyr ac ynadon yn ei wybod am yr ymchwil a ddefnyddir mewn gwaith cymdeithasol?

Mae effaith ymchwil ar ymarfer gwaith cymdeithasol yn treiddio'n anorfod i bob rhan o'r system cyfiawnder teuluol. Er enghraifft, roedd adeg pan na fyddai tystiolaeth o gam-drin domestig, ar ei ben ei hun, wedi cael ei dderbyn o reidrwydd fel prawf bod plentyn wedi dioddef, neu ei fod yn debygol o ddioddef, niwed sylweddol.

Er hyn, mae ymchwil sy'n dangos y bydd cysylltiad â cham-drin domestig yn achosi niwed emosiynol i blentyn wedi cael ei dderbyn a'i fabwysiadu yn y system cyfiawnder teuluol (Stanley, 2011). Erbyn hyn mae'n ystyriaeth allweddol yn rôl ddiogelu'r llys. Yn wir mae'r diwygiad i'r diffiniad o niwed sylweddol yn adran 31 (9) o Ddeddf Plant 1989 i gynnwys niwed a ddioddefwyd o ganlyniad i weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin yn deillio o ymchwil, gan gynnwys ymchwil a gomisiynwyd yn benodol i helpu'r farnwriaeth.¹⁵

Mae sail wybodaeth y llys yn esblygu o hyd wrth i syniadau newydd, wedi'u datblygu drwy ymchwil, gael eu derbyn. Un dull defnyddiol o ymarfer yw bod barnwyr yn egluro safbwynt y llys am

¹⁵ Gofynnwyd i ddau arbenigwr, Sturge a Glaser, adrodd am effaith trais domestig ar blant yn achos *Re L, Re V, Re M, Re H* (Cyswllt: Trais Domestig) [2000] 2 FLR 224.

faterion penodol ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Er enghraifft, yn *Re JS* [2012] EWHC 1370 (Fam)¹⁶ crynhodd Mr Justice Baker (paragraffau 48-64) wybodaeth feddygol gyfredol am waedlif ar yr ymennydd.

Ac yn *Richmond LBC v B, W, B & CB* [2010] EWHC 2903 (Fam)¹⁷ clywyd tystiolaeth gan gemegydd, tocsicolegydd fforensig a rheolwr labordy. Y mater dan sylw oedd dilysrwydd profion gwallt er mwyn canfod a oedd rhiant wedi yfed alcohol ai peidio, ac os oedd, faint. Daethpwyd i'r casgliad bod profi blew gwallt yn gymharol newydd ac y dylid defnyddio'r canlyniadau fel rhan o'r darlun tystiolaethol cyffredinol yn hytrach na dibynnu arno fel dangosydd pendant o yfed alcohol. Gweler hefyd *Re E H (Plentyn) (Profi Blewyn Gwallt)* [2017] EWFC 64¹⁸ lle rhoddodd y llys ganllawiau ar ysgrifennu adroddiadau dadansoddi gwallt mewn ffordd a oedd yn egluro gwir arwyddocâd y data.

Casglodd astudiaeth gwmpasu a gynhaliwyd yn ddiweddar (Broadhurst et al, 2017) ymatebion gan randdeiliaid yn y system cyfiawnder teuluol (gan gynnwys barnwyr) ynglŷn â'r ffordd roeddent yn defnyddio ymchwil a rôl yr Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol arfaethedig.¹⁹ Dywedodd y barnwyr fod y Coleg Barnwrol²⁰ yn fforwm pwysig ar gyfer dysgu ffurfiol a hefyd ar gyfer rhannu

ymarfer da yn anffurfiol. Er hyn, roedd y barnwyr yn teimlo eu bod ar wahân i gyfleoedd eraill i gyfnewid gwybodaeth. Yn fwyaf arbennig, teimlai'r barnwyr nad oeddent yn cael cyfleoedd i ddysgu am gynlluniau ymarfer da lleol a oedd yn cael eu harwain gan farnwyr.

Mae adroddiadau am swyddogaethau Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol yn dangos amrywiant helaeth yn eu datblygiad. Er bod yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol (2011) yn rhagweld rhwydwaith gweithredol o Fyrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol a fyddai'n cefnogi gweithredu'r Adolygiad, y realiti ar lawr gwlad yw byrddau sy'n amrywio o ran ystod y swyddogaethau y maent yn eu cyflawni, ac yn amrywio o ran y graddau y mae rhanddeiliaid yn eu hystyried yn ddefnyddiol. Canfu Broadhurst et al mai cwyn gyson ymhlith rhanddeiliaid oedd bod byrddau'n 'ymdrin â materion perfformiad llys mewn ffordd gyfyng ac nad oeddent yn rhoi digon o gefnogaeth i ddatblygu polisi ac ymarfer cyfiawnder teuluol lleol yn ehangach' (Broadhurst et al, 2017: 17).

Mae Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol mewn sefyllfa dda o safbwynt daearyddol i gefnogi gwaith arsyllfa ymchwil newydd. Er hyn, mae tystiolaeth o ymgynghori â rhanddeiliaid yn dangos bod 'llawer o waith i'w wneud er mwyn cynyddu

¹⁶ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed98022

¹⁷ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed71271

¹⁸ www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed181045

¹⁹ Rôl yr Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol fydd gwella'r defnydd o ymchwil a data yn y system cyfiawnder teuluol i gefnogi'r

penderfyniadau gorau ar gyfer plant. I weld trafodaeth lawn edrychwch ar y llawlyfr yn y pecyn adnoddau hwn.

²⁰ Mae'r Coleg Barnwrol yn gyfrifol am hyfforddi barnwyr amser llawn (cyflogedig) a rhan-amser (talw ffoedd) yn llysoedd Cymru a Lloegr, ac am hyfforddi aelodau o dribrinlysoedd. Mae hefyd yn gyfrifol am oruchwylio hyfforddiant ynadon.

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Tystiolaeth a safon profi yn y llys teulu

gallu'r darpar rwydwaith cyfnewid gwybodaeth allweddol hwn'. Ar y llaw arall, roedd Byrddau Diogelu Plant Lleol 'yn ymddangos yn fwy rhagweithiol wrth adnabod a chyfnewid ymchwil, er bod y Byrddau Diogelu Plant Lleol fel pe baent yn rhannu gwybodaeth ac ymchwil wedi'i chynhyrchu'n lleol, yn hytrach nag adrodd am astudiaethau cenedlaethol mawr' (Broadhurst et al, 2017: 17-18).

Bydd nifer o ddatblygiadau a welwyd yn ddiweddar, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, yn helpu i hwyluso a rhannu gwybodaeth a ddysgir am ddiogelu. Mae'r rhain yn cynnwys y byrddau diogelu rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, mwy o gysylltiad rhwng y byrddau diogelu plant ac oedolion a datblygu'r fframweithiau Adolygu Ymarfer Oedolion ac Ymarfer Plant ymhellach.

CLODDIO'N DDYFNACH

Yn 2012 dechreuodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gynhyrchu cyfres o Fwletinâu Ymchwil²¹ i ledaenu ymchwil ac ymarfer da perthnasol drwy'r system cyfiawnder teuluol. Mae'r rhain yn cynnwys crynodebau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid o waith ymchwil diweddar ac maent ar gael yn rhwydd drwy danysgrifio i: knowledgehub@justice.gsi.gov.uk

Eu bwriad oedd helpu i sefydlu amgylchedd lle nad yw gweithwyr cymdeithasol yn gorfod dyfalu beth fydd y barnwr yn ei wybod, neu ddim yn ei wybod. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i weithwyr cymdeithasol ganfod i ba raddau y mae angen cyfeirio at ymchwil yn eu datganiad.

Beth mae hyn yn ei olygu i arbenigedd gweithwyr cymdeithasol yn y llysoedd?

Mae angen i weithwyr cymdeithasol fod yn hyderus bod y llys eisiau clywed eu barn broffesiynol, ac y bydd yn parchu'r farn honno pan fydd yn amlwg â sail dda iddi ac wedi'i chyflwyno'n dda. Mae angen i weithwyr cymdeithasol, ynghyd â'u rheolwyr a'u hasiantaethau, ystyried sut y gallant ddatblygu mwy o hyder ac arbenigedd wrth roi tystiolaeth. Mae 'tystiolaeth' yn cynnwys:

- > ysgrifennu adroddiadau
- > ysgrifennu datganiadau tystion
- > ysgrifennu cynlluniau gofal
- > rhoi tystiolaeth yn y safle tystio.

²¹ Mae'r cyhoeddiad wedi bod yn ysbeidiol ond aildechreuodd yn haf 2018 ar ôl bwlch o ddwy flynedd. Gweler: www.gov.uk/government/publications/family-justice-research-bulletin-7

CLODDIO'N DDYFNACH

Gweler deg awgrym Conroy Harris (2014) ar gyfer mynd i'r llys (a gyhoeddwyd fel rhan o gyfres Ten Top Tips CoramBAAF). Gallwch brynu hwn yn: <https://corambaaf.org.uk/books/ten-top-tips-going-court>

OFFERYN 2

Defnyddiwch yr offeryn hwn i gryfhau eich gwybodaeth am eich llys teulu lleol. Mae gweithwyr cymdeithasol sydd wedi defnyddio'r offeryn hwn yn dweud ei fod yn cynyddu eu gwybodaeth am yr 'anhysbys' ac yn rhoi hwb i'w hyder.

Â'r pwyslais nawr ar waith helaeth cyn cychwyn achos, mae'n bwysig bod cywirdeb y gwaith cynharach hwn yn gallu gwrthsefyll craffu ym mhroses y llys. Os oes materion yn ymwneud ag angen neu ddiogelu, rhaid i'r broses o graffu'n ofalus ar y matrices ffeithiol a'r dadansoddiad gael ei gweithredu o'r cyswllt cyntaf â theulu.

Bydd ymchwil, wedyn, yn sail i bob agwedd ar ddadansoddiad gweithiwr cymdeithasol o unrhyw achos. Ond a oes angen dyfynnu ymchwil – ac os oes, pryd? Bydd gweithwyr cymdeithasol yn cael eu cynghori'n aml i beidio â chyfeirio'n benodol at ymchwil – a chyn gwneud hynny rhaid iddynt ymgynghori â'u rheolwyr a'u cynghorwyr cyfreithiol. Yn sicr, does dim llawer o ddben crybwyll enw academydd gwaith

cymdeithasol sydd wedi gwneud enw da iddo'i hun os yw'r pwynt sy'n cael ei wneud yn un amlwg – bydd y llys yn gyfarwydd â theori gyffredinol ymlyniad a gynigiwyd gan Bowlby yng nghanol yr 20fed ganrif, er enghraifft.

Efallai y bydd materion lle mae'r gweithiwr cymdeithasol yn teimlo bod angen dyfynnu neu ddefnyddio ymchwil er mwyn cadarnhau bod y dull sy'n cael ei ddefnyddio ganddo yn briodol ac yn un y gellir ei gyfiawnhau. Mae hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd mewn achosion sydd â nodweddion anarferol – gallai enghreifftiau o'r fath gynnwys gwahanu brodyr a chworydd, cyswllt ar ôl mabwysiadu neu faterion diwylliannol. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol allu dangos sut y mae wedi ffurfio ei farn a sut roedd ymchwil yn berthnasol i'r broses hon.

OFFERYN 9

Defnyddiwch yr offeryn hwn i adolygu dyfarniadau lleol sydd wedi'u gwneud yn ddiweddar yn eich llys teulu a gweld pa wersi y gallwch eu dysgu ar gyfer eich ymarfer yn y dyfodol.

Cyn dyfynnu ymchwil rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol neu swyddog Cafcass Cymru fod yn ymwybodol y gallai gael ei groesholi arno. Felly, bydd arno angen gwybodaeth drylwyr am y darn hwnnw o ymchwil (yn ogystal ag unrhyw ymchwil gwrthwynebol) a bydd angen iddo allu dadlau pam y mae'n briodol i'r achos.

Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Tystiolaeth a safon profi yn y llys teulu

▶ CLIPIAU FFILM AR-LEIN

Ar www.rip.org.uk/resources/video-resources gallwch wyllo cyfres o clipiau ffilm sy'n seiliedig ar ffug senarios croesholi. Datblygwyd y clipiau gan Research in Practice ac maent yn dangos barnwr, bargyfreithiwr teulu a gweithiwr cymdeithasol awdurdod lleol yn actio sefyllfaoedd a allai godi wrth ddefnyddio ymchwil mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar a roddir mewn llys.

A series of 30 horizontal dotted lines for writing.

Testun gwreiddiol Lewis J ac Erlen N (2012).
Diweddarwyd ac addaswyd ar gyfer Cymru
gan Doughty J (Ysgol y Gyfraith, Caerdydd)
a James A (Cyngor Gofal Cymru) (2013). Y
fersiwn cyfredol Doughty J (2018).
Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tysti-
olaeth

© Research in Practice a Gofal Cymdeitha-
sol Cymru 2018

Golygu: Steve Flood a Susannah Bowyer.

Cynllun:

Mae Research in Practice yn adran o
Ymddiriedolaeth Dartington Hall sydd
wedi'i chofrestru yn Lloegr fel cwmni cyfyn-
gedig drwy warant ac elusen. Rhif Cwmni:
1485560 Rhif Elusen: 279756 Rhif TAW:
402196875 Swyddfa Gofrestredig:
The Elmhirst Centre, Dartington Hall,
Totnes TQ9 6EL